PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 3 - DYDD IAU, 14 TACHWEDD 2019

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 3 A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB DYDD IAU, 14 TACHWEDD 2019, AM 09:30

Presennol

Y Cynghorydd JC Spanswick – Cadeirydd

N Clarke	P Davies	DK Edwards	DG Howells
DRW Lewis	JR McCarthy	JC Radcliffe	RMI Shaw
RME Stirman	E Venables	LM Walters	

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

G Thomas DBF White a/ac JE Williams

Swyddogion:

Phillip Angell	Arweinydd Tîm Rheoli Traffig a Pharcio
Sian Hooper	Rheolwr Gwastraff a Strydoedd Glanach
Zak Shell	Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth
Tracy Watson	Swyddog Cymorth Craffu
Kelly Watson	Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio

95. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd R Young fudd personol yn eitem agenda 4, Gorfodaeth, oherwydd y cafodd ei lys ŵyr ei gyflogi'n ddiweddar gan 3GS.

96. DERBYN Y COFNODION

PENDERFYNWYD: I dderbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg Pwnc a Chraffu 3 a gynhaliwyd ar 5 Medi 2019 fel rhai gwir a chywir.

97. GORFODAETH

Cyflwynodd y Pennaeth Gweithrediadau - Cymunedau adroddiad a'i ddiben oedd cyflwyno i'r Pwyllgor ymatebion i sawl cwestiwn a godwyd gan y Pwyllgor ar wahanol bynciau yn ymwneud â Gorfodaeth.

Rhoddodd y Pennaeth Gweithrediadau - Cymunedau amlinelliad o'r adroddiad, ac yn dilyn hynny gwahoddwyd cwestiynau gan Aelodau.

Roedd un Aelod yn siomedig bod y rhan fwyaf o Hysbysiadau Cosb Benodedig rhwng Ebrill a Medi 2019, yn ymddangos yn ymwneud â thaflu sigarennau yn hytrach na thipio anghyfreithlon, taflu cyffredinol/bwyd neu beidio â chlirio baw ci a holodd a oedd yr orfodaeth yn niwtral o ran cost. Cadarnhaodd y Pennaeth Gweithrediadau - Cymunedau bod y cytundeb ar sail ffurf niwtral o ran cost ac efallai na fydd y trothwy pan gaiff Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC) y datganiad tan flwyddyn nesaf. Cadarnhaodd bod gorfodaeth clirio baw ci wedi dechrau a bydd hyn yn cael ei amlygu mewn diweddariadau ar orfodaeth yn y dyfodol. Nododd yr her o oruchwylio taflu sbwriel ac eglurodd bod gennym bresenoldeb nawr, ac er bod swyddogion yn gorfodi taflu sigarennau yn bennaf, mae eu presenoldeb yn ataliad i daflu sbwriel arall. Eglurodd er y byddai'n hoffi gweld mwy o amrywiaeth o orfodaeth, agwedd negyddol y model hunan-ariannu yw na allwch dreulio gormod o amser yn ceisio dal rhywun. Cadarnhaodd bod tipio anghyfreithlon yn dal i fod yn gyfrifoldeb i swyddogion BCBC.

Nododd yr Aelod ymateb mewn perthynas â'r fformat niwtral o ran cost, a holodd a oedd hyn yn ymdrin â chost yr adran gyfreithiol. Dywedodd y Pennaeth Gweithrediadau - Cymunedau bod hwn yn faich cost i'r awdurdod a chydnabu yr her mae hyn yn ei chodi o ran adnoddau. Nododd y gweddill posibl y mae 3GS yn ei gronni y tu hwnt i'w gostau gweithredu gyda rhaniad o 90:10 o blaid y cyngor.

Gofynnodd Aelod sut mae Swyddogion Gorfodi wedi'u gwisgo. Cadarnhaodd y Rheolwr Strydoedd Glanach a Chytundebau Gwastraff bod gan y swyddogion logos a'u bod yn gwisgo camerâu.

Gofynnodd Aelod pam bod 2 Swyddog Gorfodi wedi'u disodli ym mis Medi, o ystyried yr arian a roddir i hyfforddi swyddogion. Cynghorodd y Rheolwr Strydoedd Glanach a Chytundebau Gwastraff bod hwn yn benderfyniad a wnaed gan 3GS a oedd yn ymwneud ag un rheswm personol ac un oherwydd diffyg perfformio.

Cydnabu Aelod y ganran uchel o Hysbysiadau Cosb Benodedig mewn perthynas â thaflu sigarennau, a nododd effaith taflu bonau sigarennau ar yr amgylchedd a'r cemegion gwenwynig sy'n achosi llygredd pridd a dŵr yn eu tro a phwysleisiodd agweddau cadarnhaol ar leihau taflu sigarennau.

Cyfeiriodd Aelod at y wybodaeth ynglŷn â lleoliadau'r Hysbysiadau Cosb Benodedig a roddwyd rhwng Ebill - Medi 2019, ar dudalen 19 yr adroddiad, a nododd ei fod yn dangos lleoliadau prin yn unig, e.e. ymddengys na roddwyd Hysbysiadau Cosb Benodedig ym Maesteg neu'r Cymoedd? Eglurodd y Rheolwr Strydoedd Glanach a Chytundebau Gwastraff ei bod hi'n ddyddiau cynnar a bod hon yn broses barhaus ond eu bod wedi targedu digwyddiadau penodol, e.e. Gŵyl Elvis Porthcawl. Cadarnhaodd ei bod yn hapus i aelodau adnabod unrhyw boeth-fannau.

Gofynnodd Aelod i'r Pennaeth Gweithrediadau - Cymunedau a fyddai'n barod cyhoeddi'r ystadegau ar y wefan yn dangos yr ardaloedd. Cytunodd y Pennaeth Gweithrediadau - Cymunedau y gellid gwneud hyn.

Gofynnodd Aelod sut mae 3GS yn mynd i'r afael ag achosion lle nad yw aelod o'r cyhoedd yn rhoi ei enw ar ôl i 3GS fynd ato am daflu sbwriel? Eglurodd y Rheolwr Strydoedd Glanach a Chytundebau Gwastraff bod gwrthod rhoi manylion i Swyddogion Gorfodi yn drosedd, ond pwysleisiodd bod Swyddogion Gorfodi wedi defnyddio sgwrs gydag aelodau o'r cyhoedd fel man cychwyn. Eglurodd na ellid cael y wybodaeth hon drwy fanylion car/DVLA. Ailadroddodd y Pennaeth Gweithrediadau - Cymunedau y byddai Swyddogion Gorfodi yn dweud wrth yr aelod o'r cyhoedd ei bod yn drosedd peidio â darparu enw a chyfeiriad. Awgrymodd bod llwybrau eraill yn agored i ni a phwysleisiodd enghraifft o awdurdod arall yn cyhoeddi lluniau o bobl a gofyn am eu manylion. Cydnabu er bod hwn yn opsiwn, nid oes angen i ni ddilyn y trywydd hwn ar y cam hwn. Yna gofynnodd Aelod o ran sbwriel yn cael ei daflu drwy ffenestr car. Eglurodd y Rheolwr Strydoedd Glanach a Chytundebau Gwastraff y gellid cysylltu â'r DVLA am fanylion yn yr achos hwn.

Gofynnodd Aelod am eglurhad o ran oriau gwaith Swyddogion Gorfodi. Dywedodd y Rheolwr Strydoedd Glanach a Chytundebau Gwastraff eu bod yn dechrau unrhyw bryd o 7am, ond byddant yn cau oddeutu 5pm - 6/6.30pm. Maent yn gweithio ar benwythnosau pan fo angen, e.e. Gŵyl Elvis. Gallant ddechrau'r gwaith yn gynt os oes angen, e.e. pobl sy'n cerdded eu cŵn yn gynnar.

Nododd Aelod bod y wybodaeth mewn perthynas â statws Hysbysiadau Cosb Benodedig ar dudalen 20 yr adroddiad a gofynnodd am eglurhad o'r Hysbysiadau Cosb Benodedig a roddwyd mewn camgymeriad. Eglurodd y Rheolwr Strydoedd Glanach a

Chytundebau Gwastraff bod hyn yn rhan o'r broses apelio. Pwysleisiodd enghraifft lle'r aethpwyd at unigolyn a oedd yn sâl iawn ac a fyddai wedi apelio gan y teimlwyd nad oedd mewn cyflwr meddyliol iach - yn yr achos hwn ni roddir dirwy. Awgrymodd Aelodau efallai nad oedd y categoreiddiad a ddefnyddiwyd y geiriau cywir.

Cyfeiriodd Aelod at baragraff 5.5. yr adroddiad a nododd nad yw'r cerbyd patrolio gorfodi ynghlwm â rota penodol a gofynnodd sut mae hyn yn gweithio yn ogystal â beth mae'r cerbyd yn ei wneud yn ystod gwyliau ysgol. Eglurodd Arweinydd y Tîm Rheoli Traffig a Pharcio bod rota gyda'r cerbyd gorfodi sy'n patrolio o leiaf un waith y mis ym mhob ysgol, er nododd mai'r cyfartaledd oedd dwy waith y mis. Yng ngwyliau'r ysgol, canolbwyntiodd y cerbyd gorfodi ar ardaloedd y gellir gweithredu ynddynt, e.e. mannau igam-ogam, dim aros, dim llwytho a gorsafoedd bysiau.

Nododd Aelod rota ymweld ag ysgolion yn ôl y gofyn y cerbyd gorfodi, ond awgrymodd y byddai dull gweithredu bob wythnos yn lledaenu'r neges i rieni/neiniau a theidiau/y rheiny sy'n mynd â phlant i'r ysgol. Gall hyn arwain at barcio yn ddiogel i ffwrdd oddi wrth yr ysgol yn dod yn gyffredin.

Cydnabu Aelod y Cabinet dros Gymunedau natur ar hap y cerbyd gorfodi a nododd sylwadau'r Aelodau o ran lledaenu'r neges yn ymwneud â Hysbysiadau Tâl Parcio. Os oes poeth-fan adnabyddus, yna gellir ei dargedu. Gofynnodd i Aelodau roi gwybod i Swyddogion lle mae'r poeth-fannau hyn a rhoi rheswm pam. Gobeithiodd y byddai'r neges yn cael ei lledaenu.

Trafododd yr Aelodau rôl Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu mewn perthynas â Hysbysiadau Penodedig a pharth Heddlu De Cymru. Mae angen eglurhad ynglŷn â phwy sydd â grym a phwy sy'n defnyddio'r grym.

Gofynnodd Aelod am eglurhad ynglŷn ag ai cerbyd trydan a/neu hybrid yw'r cerbyd gorfodi. Cadarnhaodd Arweinydd y Tîm Rheoli Traffig a Pharcio nad yw'n yr un o'r ddau.

Holodd Aelod a edrychir ar barcio preswylwyr. Cadarnhaodd Arweinydd y Tîm Rheoli Traffig a Pharcio y gellir ei raglennu i adnabod os nad oes trwydded ond nid yw'n rhoi Hysbysiad Tâl Cosb am y drosedd hon.

Holodd Aelod a oes ysgolion penodol sydd â nifer uwch o droseddau nag eraill. Nododd Arweinydd y Tîm Rheoli Traffig a Pharcio nad oes ganddo'r data hwnnw i law ond gellid ei ddarparu, yna gallai fod ar gael i'w rannu ag ysgolion.

Ceisiodd Aelod eglurhad ynglŷn â rôl y cerbyd gorfodi wrth iddo symud oddi wrth ysgolion. Eglurodd Arweinydd y Tîm Rheoli Traffig a Pharcio bod y cerbyd yn cofnodi'n awtomatig lle bynnag mae'n cyrraedd ardal y caiff weithredu ynddi sydd wedi'i rhaglennu ymlaen llaw. Cadarnhaodd nad yw'r data yn fyw, ond bydd yn cael ei dadansoddi yn ddiweddarach.

Gofynnodd Aelod am eglurhad ynglŷn â sawl ysgol yr ymwelir â hi mewn gwirionedd. Eglurodd Arweinydd y Tîm Rheoli Traffig a Pharcio bod y cerbyd yn mynd lle bynnag mae materion gorfodi y gellir ymdrin â nhw ond nododd nad oedd gan un ysgol fan igam ogam ac roedd dwy yn ddiwedd ffyrdd nad oedd y cerbyd yn gallu mynd yno.

Holodd Aelod am y broses lle nad yw cosb benodedig yn cael ei thalu. Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio bod y ffeil achos gan 3GS yn cael ei darparu i'r Adran Gyfreithiol i asesu'r dystiolaeth i benderfynu a ellir parhau â'r erlyniad. Dywedodd wrth yr Aelodau bod yr 11 erlyniad cyntaf yn ddyledus ar y 29ain Tachwedd.

Holodd Aelod a oes unrhyw gymhelliant i dalu'n gynt. Pwysleisiodd y Pennaeth Gweithrediadau - Cymunedau bod gwaith i ymdrin â hyn gyda Pholisi Gorfodi rhoi Hysbysiadau Cosb Benodedig am droseddau amgylcheddol a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ddiwedd Tachwedd.

Gofynnodd Aelod am yr incwm a gynhyrchwyd mewn perthynas â Hysbysiadau Tâl Cosb rhwng 1 Ebrill 2018 - 31 Mawrth 2019 a beth yw cost y gwasanaeth. Dywedodd Arweinydd y Tîm Rheoli Traffig a Pharcio bod y ffigwr yn agos at £43,000 yn y cyfnod hwnnw gan fod y rhan fwyaf o docynnau yn cael eu talu o fewn y cyfnod gostyngol ac mae rhai yn dal heb eu talu. Dywedodd y Pennaeth Gweithrediadau - Cymunedau mai ar sail y ffigwr £43,000 bod cost net fechan i'r awdurdod.

Nododd Aelod proses yr Hysbysiad Tâl Cosb ar dudalen 14 yr adroddiad ac yn benodol gwarant y weithred a gofynnodd pa mor aml mae hyn yn digwydd? Dywedodd Arweinydd y Tîm Rheoli Traffig a Pharcio bod ar gyfartaledd 100 gwarant i Ben-y-bont ar Ogwr bob dau fis (ar gyfer yr holl droseddau Hysbysiadau Tâl Cosb) ond nid yw hyn yn ddelfrydol. Nododd bod pobl sydd â 40 o Hysbysiadau Tâl Cosb yn ddyledus ac nad yw 20 yn anarferol. Yn anffodus mewn rhai achosion nid yw'r neges yn ddigon clir. Yn ogystal, nododd na ellir olrhain rhai pobl ac felly caiff y refeniw ei ddileu. Caewyd achosion hefyd lle nad oedd gan bobl ddigon o gyllid neu bobl fregus. Dywedodd Arweinydd y Tîm Rheoli Traffig a Pharcio wrth yr aelodau, ceir achosion yn aml o unigolion yn cysylltu â'r awdurdod a byddwn yn eu cyfeirio nhw at Cyngor ar Bopeth yr ydym yn gweithio'n agos â nhw, ac os yw amgylchiadau'r unigolyn o'r fath yna caiff y tocyn ei ddileu.

Amlygodd Aelod gyrsiau Ymwybyddiaeth Gyrwyr o ran goryrru a gofynnodd a ellid cael rhywbeth tebyg ar y wefan yn egluro pam nad yw gorfodi yn fater dibwys a pham y dylid ei orfodi? Cydnabu'r Pennaeth Gweithrediadau - Cymunedau y gellid ystyried hyn ac y gellir ymgymryd ag ymgyrch targedig.

Holodd Aelod am dipio anghyfreithlon yn y Fwrdeistref a gofynnodd sawl dirwy sydd wedi'u lefelu yn erbyn tipwyr anghyfreithlon yn y flwyddyn ddiwethaf. Dywedodd y Rheolwr Strydoedd Glanach a Chytundebau Gwastraff bod 2000 o achosion o dipio anghyfreithlon wedi bod. Roedd 1700 o'r rhain ym mannau cyhoeddus. Rhoddwyd 75 o Hysbysiadau Cosb Benodedig a chafodd 11 eu talu. Cydnabu ymhellach y newidiadau i'r polisi gyda mwy o sgwrs ymlaen llaw.

Diolchodd y cadeirydd i'r Swyddogion am fynychu'r cyfarfod ac fe adawsant.

Argymhellion:

Awgrymodd Aelodau ysgrifennu at y Pennaeth Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar yn gofyn iddo anfon llythyr at yr holl benaethiaid yn y fwrdeistref yn gofyn iddynt ysgrifennu at rieni yn eu hatgoffa am wella parcio gwael. Awgrymodd Aelodau bod y Pennaeth Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar yn cynnwys hyn yn ei adroddiad i Lywodraethwyr ac y dylai Cyrff Llywodraethu dderbyn adroddiad blynyddol ynglŷn â Gorfodi Parcio y tu allan i'w hysgolion.

Awgrymodd Aelodau ymgyrch gyhoeddusrwydd dargedig mewn perthynas â Gorfodi gan gynnwys mwy o addysg a chyhoeddusrwydd drwy wefan BCBC, gwybodaeth ynglŷn â llygredd aer, a chysylltu fwy gydag ysgolion.

Mewn perthynas â statws yr Hysbysiadau Cosb Benodedig a roddwyd rhwng Ebrill - Medi 2019, awgrymodd Aelodau ail eirio'r categori mewn perthynas â 'Rhoddwyd mewn camgymeriad' yn adroddiadau'r dyfodol, i ddangos 'Apeliadau' er eglurdeb.

Gofynnodd Aelodau am ragor o ddata mewn perthynas â nifer o droseddau fesul ysgol yn y Fwrdeistref. Argymhellwyd gan Aelodau y dylid rhannu'r data hwn ag ysgolion.

Awgrymodd aelodau gael adroddiad pellach ar yr ystod lawn o ddyletswyddau Gorfodi gan gynnwys tipio anghyfreithlon, bagiau duon, etc., yn Ebrill/Mai 2020.

Gwybodaeth Ychwanegol Ofynnol:

Mynegodd Aelodau bryder ynglŷn ag ysgolion na ellir eu cyrraedd gan y cerbyd gorfodi a gofynnodd am eglurhad ynglŷn â pha ddewisiadau eraill sydd i'r ysgolion hynny.

Gofynnodd Aelodau am ragor o wybodaeth o ran costau - mae angen dadansoddiad yn dangos gwariant yn erbyn incwm i weld a yw'r gwasanaethau yn ymdrin â'u costau gweithredu. Hynny yw, cytundeb y 3GS a'r gwasanaeth Roly Patroly mewnol.

Ceisiodd Aelodau eglurdeb ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau BCBC a Heddlu De Cymru o ran gorfodi a pham nad yw Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn gallu ymgymryd â'r un grym gorfodi â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn rhannau eraill o ardal Heddlu De Cymru.

98. TROSOLWG A CHRAFFU - ADBORTH O GYFARFODYDD

Cyflwynodd Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio adroddiad, ei ddiben oedd cyflwyno Aelodau ag adborth o gyfarfod blaenorol y Pwyllgor Trosolwg Pwnc a Chraffu 3 i'w drafod, cymeradwyo ac i weithredu arno, ac i roi'r rhain yn nhrefn statws coch, melyn, gwyrdd o ran cwblhau unrhyw weithred ddilynol.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor wedi ystyried yr adborth ynghlwm ac ymatebion Swyddogion fel a ddengys yn Atodiad A yr adroddiad ac wedi neilltuo statws coch, melyn, gwyrdd i'r meysydd gwaith a nodwyd:

Nododd Aelodau yn adran 7.5.2.1 yr ymgynghoriad y canran uchel o ddefnyddwyr hamdden cyffredinol sy'n defnyddio meysydd chwarae a/neu bafiliynau'r cyngor. Mynegodd Aelodau bryderon y gallai clwb sy'n meddiannu cyfleuster ddewis gau'r cyfleuster hwn i ffwrdd, gan wahardd y cyhoedd. Sut bydd hyn yn gweithio yn y dyfodol os yw mannau agored cyhoeddus yn cael eu cau i ffwrdd - **Gwyrdd**

Dangosodd yr ymgynghoriad ganran uchel o gefnogwyr tuag at feysydd chwarae yn cael eu cynnal a'u cadw gan gynghorau tref a chymuned, ond yn anffodus, nid oedd y cwestiwn yn nodi y gallai hyn arwain at archebiant treth y cyngor lleol yn cynyddu i fynd i'r afael â chostau cynnal a chadw. Felly, nid yw'n glir pa mor ddilys fyddai'r gefnogaeth hon petai'r cwestiwn wedi'i egluro'n fwy manwl - **Gwyrdd**

Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r gostyngiad arfaethedig yn amlder torri gwair mannau penodol lle bo'n briodol, ond pwysleisiwyd nad yw gadael rhai ardaloedd heb eu torri yn cymryd lle rheoli llai o dorri i gyfoethogi bioamrywiaeth - **Coch**

Holodd aelod a fyddai meysydd chwarae yn cael eu hailwampio neu eu gwella cyn cael eu trosglwyddo i Gyngor Tref neu Gymuned - **Gwyrdd**

Mynegwyd pryder ynglŷn â sut fydd safonau y gwaith cynnal a chadw yn cael eu monitro yn y dyfodol os oes ystod o sefydliadau yn rheoli safleoedd i safonau gwahanol. Mae perygl i'r ased ddirywio'n raddol yn sgil diffyg gwaith cynnal a chadw neu waith cynnal a chadw gwael / anghydlynol ac felly gall y gymuned a chenedlaethau'r dyfodol golli'r

cyfleuster. Pa gamau diogelu sydd yn eu lle i atal hyn a sut mae hyn yn mynd i weithio gyda llai o staff ac adnoddau yn BCBC - **Gwyrdd**

Awgrymodd aelodau yr opsiwn o wasanaethau cyfunol yn cael eu prynu'n ôl gan BCBC i gynnal a chadw meysydd chwarae a gellir trafod hyn ar agenda TCC yn y dyfodol. Nodwyd na fyddai gan TCC y staff cymwys i ymgymryd â'r arolygon rheolaidd a'r gwaith cynnal a chadw - **Gwyrdd**

Nododd aelodau y byddai'r archwiliad blynyddol a'r arolygiad annibynnol sydd angen eu cyflawni ar bob maes chwarae bob 12 mis yn fwy cost effeithlon petaent yn cael eu cydlynu gan BCBC, gan godi'r tâl priodol ar y cyngor tref neu gymuned - **Gwyrdd**

Mynegwyd pryder bod cyfeiriad yr adroddiad yn wynebu cyfarfod y MTFS, lle nad yw hyn yn cydymffurfio mewn gwirionedd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - **Gwyrdd**

Mynegwyd pryder bod yr adroddiad yn paratoi at gael gwared ar y cymhorthdal sy'n bodoli eisoes ar gyfer defnyddio caeau chwarae, ond nodwyd bod gwasanaethau anstatudol eraill yn gweithredu sydd â lefel cymhorthdal (e.e. Canolfannau Hamdden, Celfyddydau a Diwylliant) ac edrychir ar y rhain yn yr un modd - **Coch**

Gofynnodd aelodau am eglurhad cyfreithiol ynglŷn ag a ellid gwahardd cŵn, petai Cyngor Tref neu Gymuned yn cymryd rheolaeth o Faes Chwarae Plant. Beth yw'r sefyllfa gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cael eu gweithredu mewn meysydd chwarae ac ar gaeau chwarae - **Coch**

Gofynnodd aelodau am eglurhad ynglŷn â phetai clwb yn methu â meddiannu cyfleuster neu ddim eisiau gwneud hynny, neu ddim yn gallu fforddio'r costau diwygiedig, a fydd y cyfleuster hwnnw yn cau? - **Gwyrdd**

Nododd Aelodau raddfa'r costau yn Atodiad E, ond gofynnwyd am ddadansoddiad fwy manwl o'r costau. Mae angen dangos costau cynnal a chadw blynyddol ar gyfer caeau chwarae. Yn ogystal, roedd peth dryswch ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd pan mae mwy nag un clwb yn rhannu cae - a yw'r ddau yn talu'r ffi lawn? Fel yr enghraifft a roddwyd gan y Cyng. D. Lewis, gellid cael bil o oddeutu £40,000 am ddau gae gyda sawl tîm ac mae hynny'n fwy na'r gost cynnal a chadw mewn gwirionedd - **Coch**

Nodwyd hefyd bod y gymhariaeth rhwng Caeau Chwarae (Criced) yn 2019 a 2020 yn dangos cost uned ac yna swm blynyddol, a gofynnwyd am ragor o wybodaeth ynglŷn â chostau er mwyn cael cost gymharol o un flwyddyn i'r llall – **Gwyrdd**

99. DIWEDDARIAD AR Y BLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio adroddiad sy'n:

a) Cyflwyno eitemau blaenoriaeth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol, yn cynnwys yr eitem nesaf i'w ddirprwyo i'r Pwyllgor Trosolwg Pwnc a Chraffu 3;
b) Gofyn i'r Pwyllgor adnabod (os unrhyw rai) eitemau i'w hystyried gan ddefnyddio'r ffurflen meini prawf a gytunwyd arno ymlaen llaw.

Ynghlwm ag Atodiad A yr adroddiad oedd y blaenraglen waith cyffredinol i'r Pwyllgorau Trosolwg Pwnc a Chraffu, a oedd yn cynnwys pynciau blaenoriaeth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol ar gyfer y cyfuniad nesaf o Bwyllgorau Trosolwg Pwnc a Chraffu yn Nhabl A, yn ogystal â phynciau a dybiwyd yn bwysig i'w blaenoriaethu yn y dyfodol yn Nhabl B.

Cyflwynodd y Swyddog Craffu Flaenraglen Waith a rhoi gwybod i'r Pwyllgor mai mewn perthynas â cham nesaf cyfarfodydd y pwyllgor, bydd y pwyllgor yn ystyried yr eitem ar y Gyllideb sydd wedi'i hamserlennu ar gyfer mis Ionawr. Rhoddodd gwybod i'r pwyllgor fodd bynnag y derbyniwyd e-bost gan y Pennaeth Cyllid Dros Dro yn rhoi gwybod i'r pwyllgor bod LlC wedi oedi'r dyddiadau sefydlu yn sgil yr etholiad, felly mae'n hynod debygol y bydd angen i'r cyfarfodydd ym mis Ionawr newid eto.

Cytunodd aelodau i gadw cyfarfod Pwyllgor Trosolwg Pwnc a Chraffu 3 sydd wedi'i drefnu ar gyfer 27 Ionawr yn rhydd am unrhyw newid posibl i gyfarfodydd y gyllideb. Cytunodd yr aelodau i ystyried yr eitem ar Strategaeth Ddigartrefedd (o bosibl ochr yn ochr â'r Grant Cefnogi Pobl a Llety Brys) ym Mawrth a'r eitem ynglŷn ag Eiddo Gwag yn Ebrill/Mai.

Yn olaf, atgoffwyd aelodau petai ganddynt unrhyw eitemau y dymunant eu cynnig i'w hystyried gan yr adran graffu, i gwblhau'r ffurflen meini prawf a'i hanfon at swyddogion craffu i'w ehangu ymhellach.

PENDERFYNWYD: Nodi'r adroddiad.

100. EITEMAU BRYS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 11.15am